# Swydd

galeri

## Rheolwr Café Bar Galeri

Pecyn swydd: Ebrill 2024

Galeri Caernarfon Cyf.

# Rheolwr Café Bar Galeri

Ydy'r diddordeb, yr egni a'r agwedd iawn gennych i fod yn ran allweddol o'r cwmni wrth reoli'r Café Bar yn Galeri.

Fel canolfan ac adeilad prysur sydd yn croesawu dros 200,000 o bobl drwy'r drysau yn flynyddol – mae'r cynnig arlwyo (bwyd/diod) yn ganolog bwysig ar gyfer ymwelwyr, defnyddwyr, artistiaid a'r staff sydd yn gweithio yn Galeri.

Dyma swydd bwysig sydd am fod yn arwain ac ysgogi'r adran i ddatblygu yr arlwy, ymestyn ein cynnig ac yn ei hanfod, ein bod yn cynnig gwasanaeth effeithiol, safonol a chyson ar gyfer pawb.

Bydd Rheolwr y Café Bar yn gyfrifol am:

- Reoli gweithrediadau dyddiol y Bar a'r caffi (gan gynnwys y gegin)
- Fod yn ddeilydd Trwydded yr adeilad (alcohol) ac y goruchwyliwr eiddo dynodedig
- Recrwtio staff
- Hyfforddi staff newydd yn drylwyr ym mhob agwedd o weithrediadau'r adran
- Hybu a datblygu'r Café Bar fel bwyty safonol
- Delio yn effeithiol hefo unrhyw gwynion neu gamgymeriadau a'u perchnogi
- Ymdrin â phryniant gwerthiant ac uwchwerthiant yn y Café Bar
- Rheoli cyllid yr adran

Mae siarad a cyfathrebu yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd yma.

Os hoffech sgwrs bellach am y swydd, mae croeso i chi gysylltu â:

**Naomi Saunders**
naomi.saunders@galericaernarfon.com    01286 685 241

# Galeri Caernarfon Cyf – amdanom ni...

Sefydlwyd Cwmni Tref Caernarfon, fel menter gymunedol nid am elw, i adnewyddu canol tref (y dref gaerog) Caernarfon yn 1992.

Roedd nifer o adeiladau gwag yng Nghaernarfon, ac roedd y cwmni yn awyddus i newid hyn ac i wella tref Caernarfon drwy ymgymryd â'r dasg o drawsnewid ac ailwampio rhai o'r adeiladau gwag yma - gan ddod a'r adeiladau yma nol i ddefnydd (siopau / swyddfeydd / salonau / caffis / fflatiau / tai / tafarn ayb).

Newidiwyd ei enw i Galeri Caernarfon Cyf yn 2006, yn dilyn agoriad canolfan Galeri yn 2005. Roedd datblygiad canolfan Galeri yn ymateb i'r cynnydd mewn busnesau creadigol lleol, gyda'r amcan i greu hwb i'r busnesau yma, ac i roi llwyfan i artistiaid/perfformwyr arddangos a rhannu eu gwaith gyda'r cyhoedd - a hynny mewn canolfan/adeilad proffesiynol a phwrpasol.

Erbyn heddiw, mae'r cwmni wedi adnewyddu dros ugain o adeiladau gwag yn y dref oedd wedi eu hesgeuluso, sydd yn awr gyda thenantiaid.

Prosiect diweddaraf y cwmni yw Cei Llechi (ar y cyd hefo Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon). Dyma brosiect adfywio gwerth £5.9m sydd wedi dod a hen safle diwydiannol bwysig nol i ddefnydd ar gyfer busnesau sydd yn creu/cynhyrchu a manwerthu.

Mae gan y cwmni gynlluniau cyffrous ar gyfer parhau i ddatblygu prosiectau dros y blynyddoedd nesaf ac i'r dyfodol.



## Gweledigaeth y cwmni:

Mae gweledigaeth hirdymor Galeri yn gymharol syml, sef i **GREU CYFOETH CYMUNEDOL** – ar lefel economaidd, amgylcheddol, drwy'r celfyddydau a thrwy brosiectau adfywio asedau/adeiladau.

Byddwn yn cyrraedd ein gweledigaeth drwy:

**"weithredu prosiectau cynaliadwy mewn ffordd greadigol i wireddu potensial diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol y gymuned leol a'r cyffiniau"**

## Mae'r swydd yn un sydd yn cynnig amrywiaeth o ran tasgau a chyfrifoldebau. Ymhlith y prif dasgau mae:

- Rhoi gwasanaeth rhagorol a chyson i holl gwsmeriaid a defnyddwyr Galeri
- Ymateb yn effeithiol i ymholiadau staff, tenantiaid a chwsmeriaid o ran gwasanaethau arlwyo/Café Bar
- Delio hefo unrhyw gwynion a blaenyrru materion sy'n berthnasol i adrannau eraill y Cwmni
- Paratoi, monitro a diweddaru ROTA's addas, effeithiol ac amserol gan sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'u dyletswyddau ymlaenllaw a'u bod nhw'n cael arweinyddiaeth cyson.
- Hyfforddi staff newydd ac adnabod unrhyw Hyfforddiant ychwanegol all gael ei drefnu gan y Cyfarwyddwr Gweinyddu ac Adnoddau Dynol yn unol â'ch cais
- Cyflwyno, adolygu a gweithredu systemau gweithredu amrywiol gan gynnwys:
  - Prosesau a thasgau agor / cau y Café Bar
  - System archebu byrddau y Café Bar
  - System archebu diodydd egwyl
  - System tiliau "EPOS"
- Mynychu'r Cyfarfodydd gweithrediadau wythnosol ar gais y Cyfarwyddwr
- Rhannu gwybodaeth perthnasol a thrylwyr gyda staff yr adran yn dilyn cyfarfod gweithrediadau wythnosol
- Cynnal cyfarfodydd mewnol yr adran e.e. gyda:
  - Rheolwr y gegin / staff cegin
  - Staff blaen tŷ
  - Cyfarfodydd briffio rheolaidd
- Adnabod a gweithredu unrhyw anghenion hyfforddiant sydd angen ar staff
- Sicrhau bod yr adran yn barod am fusnes pob amser trwy fod yn weladwy, goruchwylio a glanhau/clirio byrddau / monitro lefelau stoc yn gyson ac archebu popeth sydd angen yn y caffi a'r bar/ ail gyflenwi oergelloedd ayyb
- Sicrhau bod pob aelod o'ch staff yn hyderus ac yn ymwybodol o'r tasgau sydd angen eu cwblhau a'u bod yn gweithio'n effeithiol ag yn rhagweithiol
- Sicrhau bod na ddarpariaethau a gosodiadau safonnol ar gyfer Cyfarfodydd, Agoriadau Safle Celf, Priodasau a digwyddiadau eraill

- Cyd-drafod syniadau yn gyson gyda o ran bwydlenni/cynnigion arbennig/pecynnu bwyd a diod/cynnigion arbennig gyda'r rheolwr cegin (gan ystyried y rhaglen ddigwyddiadau a chyfarfodydd/cynadleddau)
- Cyfathrebu'n ddyddiol ar anghenion arlwyo'r dydd yn ogystal â chynllunio ymlaenllaw ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol
- Cyfri tiliau a fflôt arian, balansio sesiynnau gwerthu yn ddyddiol a datrys unrhyw wahaniaethau yn syth gyda'r lleiafswm o gyfeiriadau at y Rheolwyr eraill (bydd hefyd angen dilyn y prosesau sydd mewn lle wrth gofnodi'r manylion bancio yn electronig)
- Hyfforddi staff eraill ar y dyletswyddau bancio/ariannol fel bod posib dirprwyo y tasgau yma ar adegau
- Monitro a chyflenwi newid
- Arwain ar y system tiliau/EPOS (addasu'r system/costau ac adolygu adroddiadau a patrymau gwerthiant er mwyn gwneud penderfyniadau strategol wrth edrych ymlaen)
- Adrodd, yn brydlon, unrhyw ddiffygion neu ddifrod i offer neu eiddo at yr adrannau perthnasol o fewn y cwmni
- Bod yn gyfrifol am sicrhau bod safonnau glendid a Iechyd a Diogelwch y caffi/bar/ciosg y sinema a'r offer cysylltiedig o'r safon uchaf yn y safleoedd yma ar bob achlysur
- Hyrwyddo gwerthiant diodydd yn ystod egwyl digwyddiadau i uchafu incwm a lleihau ciwio yn ystod yr egwyl
- Hyfforddi staff newydd ym mhob agwedd o weithrediadau'r swydd(i)
- Sicrhau amgylchedd ddiogel i weithio ynddi a sicrhau bod deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch yn cael ei ddilyn
- Cadw'r gwaith papur angenrheidiol
- Mynd i gyfarfodydd 'pubwatch' a briffio eich Tîm yn unol â hynny
- Rheoli stoc (gwerthu ac archebu) gan sicrhau eich bod yn recordio ac yn cael gwared o stoc sydd allan o ddyddiad a gwneud yn siwr bod y gwarediad ohonynt yn ddiogel
- Sicrhau bod y cynllunio a'r darpariaeth ar gyfer digwyddiadau (e.e. digwyddiadau, cynadleddau, priodasau ayb) yn amserol
- Unrhyw ddyletswyddau rhesymol arall sy'n angenrheidiol oddimewn i lefel y swydd
- Ymgymrud âc unrhyw ddyletswyddau arall sy'n gymesurol â lefel cyfrifoldeb y swydd
- Cydymffurfio gyda holl bolisiau'r Cwmni gan gynnwys Polisiau Cyflogaeth a Iechyd a Diogelwch

**Rhoddir hyfforddiant ac ynwythiad llawn ar gyfer holl agweddau'r swydd.**

# Chi

## Ymhlith y cymhwyseddau a sgiliau sydd angen ar gyfer y swydd mae:

- Sgiliau pobl gwych – diddordeb gwirioneddol mewn magu perthynas a gyda cyd-weithwyr a chwsmeriaid
- Gallu cyfathrebu yn glir ac effeithiol
- Y gallu i ysgogi staff a chydweithwyr
- Y gallu i weithio mewn awyrgylch prysur a chyflym
- Y gallu i wneud gwahaniaeth positif a chofiadwy i'r cwsmer, trosglwyddo lefel uchel o wasanaeth heb oruchwyliaeth barhaol
- Y gallu i weithio yn rhan o dim, cefnogi cyd-weithwyr a hyrwyddo ysbryd da
- Sgiliau rhifiadol i allu cyfri yn sydyn a sicrhau cywirdeb cyson o'r fflôt, til a newid mân, sgiliau cyfrifiadurol
- Sgiliau cyfathrebu effeithiol ar lafar neu'n ysgrifenedig
- Dangos sylw manwl at fanylion ac arddangos safon uchel o waith, rheoli amser a hyblygrwydd
- Unigolyn sy'n gwerthfawrogi ac sy'n ymrwymedig i ddiwylliant gwahanredol y Cwmni
- Gallu gweithio patrwm rota hyblyg e.e gyda'r nosau,penwythnosau/Gwyliau Banc
- Gallu cyfarfod gofynion hyfforddiant a datblygiad y swydd
- Angerddol am y celfyddydau a gweledigaeth Galeri fel menter gymunedol
- Egniol, cyfrifol, brwdfrydig, cwrtais, angerddol
- Arddangos hunan gred a gonestrwydd
- Hyderus i gyfrannu a gweithredu syniadau er mwyn gwella effeithiolrwydd a gwasanaethau (i'r cwsmer a'r staff)
- Awyddus i ddysgu a datblygu fel person ac yn rhinwedd y swydd

# Telerau ac amodau'r swydd

**Teitl:** Rheolwr Café Bar Galeri

**Yn atebol i:** Tîm Rheoli Galeri

**Cyflog**: £26,000 - £27,500

**Oed:** Rhaid bod yn 18+ od ar gyfer ymgeisio

**Cyfnod:** Parhaol (yn ddibynnol ar gyfnod prawf o 6 mis)

**Oriau gwaith:** Cytundeb 37 – 40 awr yr wythnos ar gael.
ROTA Llun – Sul fydd yn cynnwys oriau gyda'r nos | penwythnosau | gyliau banc yn unol a gofynion y busnes

**Lleoliad:** Mae'r swydd wedi ei leoli yn Galeri, Caernarfon.

Mae'r gallu i gyfathrebu yn effeithiol a chlir yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Fel cyflogwr, rydym yn hyrwyddo cyfle cyfartal. Croesewir ceisiadau o bob rhan o gymdeithas er mwyn adlewyrchu'r ddemograffeg leol ac yn ehangach yn fanwl gywir – a thrwy hynny ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth.

Am gopi print bras o'r pecyn yma, cysylltwch efo

**Naomi Saunders ar 01286 685 241 neu naomi.saunders@galericaernarfon.com.**

**Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno eich ffurflen gais:**
**17:00 Dydd Llun 03.06.2024**

Cyfweliadau i'w cynnal wythnos yn dechrau 18.12.2023